

Ymchwiliad i gŵyn  
gan Mrs X  
yn erbyn Cyngor Cymuned Cynwyd

Adroddiad gan  
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
Achos: 201403092

## Cynnwys

## Tudalen

Cyflwyniad	3
Crynodeb	4
Y gŵyn	6
Yr ymchwiliad	6
Deddfwriaeth ac arweiniad perthnasol	7
Tystiolaeth y Cyngor	8
Sylwadau a wnaed gan Mrs X mewn ymateb i ddrafft cynharach o'r adroddiad hwn	10
Dadansoddiad a chasgliadau	10
Argymhellion	13

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn dan adran 16 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.

Yn unol â darpariaethau'r Ddeddf, ni ddefnyddiwyd enwau yn yr adroddiad er mwyn sicrhau, hyd y bo modd, bod unrhyw fanylion a allai olygu bod modd adnabod unigolion wedi cael eu newid neu eu hepgor. Mae'r adroddiad felly'n cyfeirio at yr achwynydd fel "Mrs X", at Gyngor Cymuned Cynwyd fel "y Cyngor" ac at yr aelodau neu'r swyddogion yn ôl eu swydd.

## Crynodeb

Cwynodd Mrs X am gyfathrebu gwael rhwng y Cyngor a thrigolion lleol. Dywedodd Mrs X fod y Cyngor yn cyhoeddi rhai hysbysiadau yn Gymraeg yn unig, ac roedd hi'n ddig fod hyn yn ei heithrio hi rhag ymwneud â'r Cyngor gan nad yw hi'n siarad Cymraeg. Pan oedd y Cyngor yn cyhoeddi agendâu yn Gymraeg yn unig, dywedodd fod pobl ddi-Gymraeg dan anfantais oherwydd nad oedden nhw'n gwybod beth fyddai'n cael ei drafod yn y cyfarfodydd hynny.

Roedd Mrs X hefyd o'r farn bod y ffaith fod cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn ei heithrio hi, gan na fyddai hi'n deall beth oedd yn cael ei drafod. Teimlai fod y ffordd mae'r Cyngor yn cynnal ei waith yn effeithio'n niweidiol ar ei gallu i gymryd rhan yn iawn mewn democratiaeth leol.

Roedd Mrs X o'r farn y dylai'r Cyngor sicrhau fod ei holl hysbysiadau a chyfarfodydd yn ddwyieithog, fel bod pawb yn gallu cymryd rhan a theimlo bod eu barn a'u pryderon mor ddilys â phawb arall.

Er fy mod yn derbyn yn llwyr ac yn cefnogi'r egwyddor fod gan y Cyngor yr hawl i gynnal ei fusnes drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy bostio agendâu yn Gymraeg yn unig, canfûm fod y Cyngor wedi methu â gwneud darpariaeth ddwyieithog ysgrifenedig ddigonol ar gyfer Mrs X fel unigolyn sy'n deall Saesneg, ond nid y Gymraeg. Mae hynny'n gamweinyddu, a achosodd i Mrs X ddioddef anghyfiawnder. Gan hynny, dyfernais fod cwyn Mr X wedi ei **chadarnhau**. Argymhellais:

(a) Bod y Cyngor yn ymddiheuro i Mrs X yn ysgrifenedig am fethu â gwneud darpariaeth ddwyieithog ysgrifenedig ddigonol ar ei chyfer.

(b) Bod y Cyngor yn ymrwymo i gyhoeddi'r holl agendâu'n ddwyieithog ac i wneud dogfennau eraill ar gael yn ddwyieithog (gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd os nad oedden nhw ar gael yn ddwyieithog yn barod) os yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny.

Ni wnaeth y Cyngor dderbyn canfyddiadau'r adroddiad, gan wrthod gweithredu'r argymhellion a wnaed.

Roeddwn hefyd wedi argymhell mewn drafft cynharach o'r adroddiad hwn y dylai'r Cyngor wneud taliad o £100 i Mrs X i gydnabod yr amser a dreuliodd a'r drafferth a achoswyd iddi wrth fynd ar drywydd ei chwyn. Ar ôl gweld y drafft, dywedodd Mrs X nad oedd hi'n barod i dderbyn yr arian. Felly, ni ofynnais i'r Cyngor wneud taliad o'r fath i Mrs X, er fy mod o'r farn y byddai'n ei haeddu.

## Y gŵyn

1. Cwynodd Mrs X am y cyfathrebu gwael rhwng y Cyngor a thrigolion lleol. Dywedodd Mrs X fod y Cyngor yn cyhoeddi rhai hysbysiadau yn Gymraeg yn unig, ac roedd hi'n ddig fod hyn yn ei heithrio hi rhag ymwneud â'r Cyngor gan nad yw hi'n siarad Cymraeg. Pan oedd y Cyngor yn cyhoeddi ei agendâu yn Gymraeg yn unig, dywedodd fod pobl ddi-Gymraeg dan anfantais oherwydd nad oedden nhw'n gwybod beth fyddai'n cael ei drafod yn y cyfarfodydd hynny.
2. Roedd Mrs X hefyd o'r farn bod y ffaith fod cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn ei heithrio hi, gan na fyddai hi'n deall beth oedd yn cael ei drafod.
3. Dywedodd Mrs X y byddai'n hoffi ymwneud â'r cyngor cymuned lleol, ond roedd hi'n teimlo bod gosod hysbysiadau yn Gymraeg yn unig yn annymunol. Teimlai hefyd mai dyma pam roedd pobl yn cael eu cyfethol ar y Cyngor, gan nad oedd y bobl a allai fod â diddordeb mewn sefyll ar gyfer y Cyngor yn teimlo'n rhan, ac yn credu, gan na allen nhw ddeall agendâu a rhai hysbysiadau eraill, na fyddai eu safbwyntiau/pryderon o unrhyw ddiddordeb. Roedd Mrs X o'r farn nad oedd yn ymddangos bod y Cyngor yn teimlo bod hwn yn fater yr oedd angen ei gywiro. Teimlai fod y ffordd roedd y Cyngor yn cynnal ei waith yn effeithio'n niweidiol ar ei gallu i gymryd rhan yn iawn mewn democratiaeth leol.
4. Roedd Mrs X o'r farn y dylai'r Cyngor sicrhau fod ei holl hysbysiadau a chyfarfodydd yn ddwyieithog, fel bod pawb yn gallu cymryd rhan a theimlo bod eu barn a'u pryderon (ynghylch gwaith y Cyngor a materion lleol) yr un mor ddilys â phawb arall.

## Ymchwiliad

5. Cafodd fy ymchwilydd sylwadau gan y Cyngor a bu iddo ystyried y rhain ar y cyd â'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Mrs X. Nid wyf wedi cynnwys pob manylyn a archwiliwyd yn yr adroddiad hwn, ond rwy'n fodlon nad oes unrhyw beth o bwys wedi cael ei hepgor.
6. Cafodd Mrs X a'r Cyngor gyfle i weld a chyflwyno sylwadau ar fersiwn drafft o'r adroddiad hwn cyn cyhoeddi'r fersiwn terfynol.

## Deddfwriaeth ac arweiniad perthnasol

7. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r canllawiau "Canllaw y Cynghorydd Da 2012: Ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref", sy'n datgan:

"Mae'r cyngor cymuned neu dref gorau yn cynrychioli pob rhan o'i gymuned ac yn creu ymdeimlad o berthyn. Ei nod yw bod yn gynhwysol drwy sicrhau nad yw neb yn teimlo o dan anfantais. Yn arbennig, rhaid iddo sicrhau na chaiff pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg neu Saesneg fel eu hiaith gyntaf (neu siaradwyr ieithoedd eraill) eu heithrio."

8. Cyhoeddodd fy rhagflaenydd ganllawiau statudol yn 2008, "Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda". Nodir yn y canllawiau hynny y dylai'r awdurdodau a restrir (ac mae'r Cyngor yn un o'r rheiny):

"...[c]yfathrebu yn effeithiol, gan ddefnyddio iaith glir y gall pobl ei deall ac sy'n briodol iddynt o dan eu hamgylchiadau."

"...[h]oi gwybodaeth i bobl ... sy'n glir, yn gywir, yn gyflawn, yn berthnasol ac yn amserol."

"...[t]rin pobl yn deg ac â pharch bob amser."

"...[t]rin pobl yn gyfartal ac yn ddiduedd. Dylent ddeall a pharchu amrywiaeth eu cwsmeriaid a sicrhau mynediad teg at wasanaethau a thriniaeth waeth beth yw eu cefndir neu'u hamgylchedd."

9. Cyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg (sydd wedi cael ei ddiddymu a'i ddisodli gan Gomisiynydd y Gymraeg) ganllaw i gynghorau tref a chymuned Cymru ei ddilyn wrth ddrafftio Cynlluniau Iaith Gymraeg (h.y. Cynlluniau Iaith Gymraeg safonol ar gyfer cynghorau tref a chymuned Cymru). Mae'n nodi'r hyn y dylid ei gynnwys mewn cynllun o'r fath. Er nad oes gan y Cyngor Gynllun Iaith Gymraeg (ac nid oes yn rhaid iddo gael un yn ôl y gyfraith), mae'r canllawiau, serch hynny, yn arwydd o'r safonau a ddisgwylir gan gynghorau cymuned, ac mae'n ddefnyddiol wrth benderfynu beth ellir ei ddisgwyl yn rhesymol gan gyrff o'r fath, o ran argaeledd deunydd cyhoeddedig yn ddwyieithog ymhlith pethau eraill.

10. Mae Adran 5(2) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gweithredu'r egwyddor, cyn belled ag y bo hynny'n briodol dan yr amgylchiadau, ac yn ymarferol bosibl, y dylid trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

11. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ymhlith pethau eraill, yn nodi bod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru, ond nid yw'r mesur yn effeithio ar statws y Saesneg yng Nghymru.

## Tystiolaeth y Cyngor

12. Ysgrifennodd Clerc y Cyngor, mewn ymateb i Mrs X, dyddiedig 30 Gorffennaf 2014: [cyfieithiad o'r Saesneg gwreiddiol]

“[Roedd] yn drist iawn [ganddo] weld tŷn [ei] neges e-bost [hi], [ac roedd] yn teimlo bod llawer o broblemau y dylid eu datrys. Am nifer o flynyddoedd, [roedd] wedi bod yn Gynghorwr i bobl hŷn a phobl ifanc yng Nghymru a Lloegr, a phe bai unrhyw beth y [gallai ef] ei wneud, dim ond gofyn oedd angen, ac y [byddai'n] gwneud [ei orau i'w] helpu [hi].”

13. Yn y llythyr hwnnw, dywedodd y Clerc hefyd ei fod yn gobeithio ei fod wedi llwyddo i ateb ei “phryderon”, ac oes oedd ganddi broblemau, y byddai ef yn “barod i wrando”.

14. Darparodd y Clerc gopi o lythyr dyddiedig 7 Awst 2014 i'm hymchwilydd yr oedd wedi ei gael gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, ac a oedd yn ei farn ef yn cymeradwyo ymagwedd y Cyngor mewn perthynas â'r defnydd o iaith wrth gynnal ei waith. Roedd y llythyr hwnnw'n cydnabod pwysigrwydd (gan gyfeirio at ganllawiau Llywodraeth Cymru) bod yn gynhwysol a sicrhau na ddylai pobl sy'n defnyddio Cymraeg neu Saesneg fel eu hiaith gyntaf (na siaradwyr ieithoedd eraill) gael eu heithrio. Roedd hefyd yn cydnabod bod y Clerc wedi dweud ei fod yn barod i gefnogi pobl ddi-Gymraeg i ddeall trafodaethau'r Cyngor a gynhelir drwy gyfrwng y Gymraeg - er enghraifft, drwy ddarparu crynodeb Saesneg ar lafar o'r trafodaethau hynny. Nodwyd yn y llythyr fod y Clerc hefyd wedi mynegi parodrwydd i ddarparu gwybodaeth am faterion penodol yn Saesneg ar gais gan unigolion di-Gymraeg.



15. Dywedodd y Clerc wrth fy ymchwilydd, mewn neges e-bost dyddiedig 1 Medi 2014, fod pob hysbysiad yn ddwyieithog, ac eithrio agendâu cyfarfodydd y Cyngor. Yn y neges e-bost honno, dywedwyd bod y Cyngor yn ceisio annog aelodau'r gymuned i ddod i gyfarfodydd, ond ni wnaeth unrhyw un ymateb. Nododd y Clerc, os bydd rhywun di-Gymraeg yn bresennol mewn cyfarfod o'r Cyngor, yna byddai'n rhaid iddo ef/iddi hi eistedd wrth y Clerc, fel y gallai gyfieithu ar gyfer yr unigolyn.

16. Mewn llythyr dyddiedig 28 Hydref 2014 (a anfonwyd mewn ymateb i ymgais fy ymchwilydd i ddatrys y gŵyn hon), dywedodd y Clerc fod y Cyngor ar hyn o bryd yn datblygu gwefan, gydag arian gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac arni roedd yn bwriadu cyhoeddi'r holl wybodaeth yn ymwneud â'r Cyngor yn ddwyieithog. Ailadroddodd hefyd nad oedd aelodau'r cyhoedd yn dod i gyfarfodydd y cyngor cymuned, er eu bod nhw'n cael eu hannog i wneud hynny.

17. Yn y llythyr hwnnw, dywedodd y Clerc wrth fy ymchwilydd mai'r:  
[cyfieithiad o'r Saesneg gwreiddiol]

“unig gyfathrebu dwyieithog yw'r Agendâu, a llythyrau, negeseuon e-bost a sgysiau yn ôl synnwyr cyffredin.”

18. Mewn ymateb i lythyr fy ymchwilydd a ddechreuodd yr ymchwiliad (a oedd, unwaith eto, yn cynnig cyfle i'r Cyngor setlo'r gŵyn pe bai'n cytuno i newid rhai o'i arferion), rhoddodd y Clerc wybod i'm hymchwilydd mai Cymraeg oedd iaith y Cyngor a bod y rhan fwyaf o'i hysbysiadau yn ddwyieithog. Dywedodd bod agendâu yn Gymraeg yn unig ar y pryd. Dywedodd y Clerc fod trefn gyfieithu fewnol y Cyngor yn “eithaf da”. Dywedodd mai eu haen nhw o lywodraeth oedd yr unig un nad oedd yn cael budd o arian a ddyrennir ar gyfer cyfieithwyr proffesiynol. Pe bai aelodau'r cyhoedd yn dod i gyfarfodydd mewn gwirionedd, dywedodd y gallen nhw ddod â'u cyfieithydd eu hunain os oedden nhw'n dymuno. Dywedodd y Clerc ei fod ef, y Cadeirydd a'r wyth Cynghorydd ar gael yn rhwydd ar gyfer trafodaethau yn Gymraeg a/neu Saesneg.

19. Dywedodd y Clerc fod y Cyngor yn “ystyried ei ddulliau cyfathrebu” â holl ardal Cynwyd, yn Gymraeg a Saesneg, i sicrhau fod y Cyngor yn gynhwysol.

20. Dywedodd y Clerc nad oedd Mrs X yn byw yn ardal Cynwyd, a oedd yn codi pwynt ynghylch a oedd y Cyngor yn gyfrifol am bobl Cynwyd ynteu'r gymuned ehangach.

21. Dywedodd y Clerc fod Mrs X wedi cael manylion am holl gyfarfodydd y Cyngor, a gwahoddiad i fod yn bresennol ynddyn nhw, bedair blynedd yn ôl, pan gwynodd am fater arall. Dywedodd y Clerc na wnaeth hi hynny ac na wnaeth hi gysylltu ag ef. Dywedodd y Clerc fod y Cyngor wedi cael dwy gŵyn gan y cyhoedd ers troad y ganrif, sef pan ddaeth ef yn Clerc. Dywedodd fod y ddwy gŵyn wedi dod gan Mrs X. Awgrymodd, felly, mai hi oedd “yr un nad oedd yn dangos cytgor”.

22. Dywedodd y Clerc bod y Cyngor yn gwasanaethu'r gymuned fel roedd y gymuned honno'n dymuno, ac y byddai cyfathrebu da yn caniatáu i hyn barhau a gwella yn y dyfodol.

### **Sylwadau a wnaed gan Mrs X mewn ymateb i ddrafft cynharach o'r adroddiad hwn**

23. Cydnabu Mrs X fod cyfran o'i Threth Gyngor yn cael ei dalu i gyngor cymuned cyfagos yn hytrach nag i Gynwyd. Fodd bynnag, dywedodd ei bod hi'n byw hanner ffordd rhwng y ddau gyngor, a'i bod hi'n ystyried Cynwyd fel ei phentref a'i chymuned agosaf.

24. Dywedodd Mrs X nad oedd yn gwybod pa gŵyn arall y dywedir ei bod wedi ei gwneud bedair blynedd yn ôl. Dywedodd ei bod hi'n meddwl ei bod hi wedi gofyn yn y gorffennol am fanylion ei chynghorwyr cymuned. Mae'r rhain ar yr hysbysfwrdd erbyn hyn. Dywedodd Mrs X ei bod hi'n ystyried hwnnw fel cais, yn hytrach na chŵyn.

25. Mae Mrs X yn pryderu na fydd y Cyngor yn cadw at ei ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar lafar yn ystod cyfarfodydd.

### **Dadansoddiad a chasgliadau**

26. Dylaf ddweud yn gyntaf fy mod i'n derbyn yn llwyr ac yn cefnogi'r egwyddor fod gan y Cyngor yr hawl i gynnal ei waith drwy gyfrwng y

Gymraeg. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor hefyd sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer yr aelodau hynny o'r cyhoedd nad ydyn nhw'n deall Cymraeg.

27. O ran y dogfennau y mae'r Cyngor yn eu cyhoeddi yn Gymraeg yn unig, dylid bod yn ymwybodol o'r canllawiau y cyfeirir atyn nhw ym mharagraffau 7 i 9 uchod. Rwy'n sylweddoli bod y Clerc wedi dweud ei fod ef a'r Cynghorwyr wedi bod yn barod bob amser i gynorthwyo unrhyw un os nad ydyn nhw'n deall cynnwys unrhyw un o ddogfennau'r Cyngor (a thrwy hynny o bosibl yn cyfyngu ar unrhyw anffafiaeth a achoswyd i unigolion di-Gymraeg). Fodd bynnag, yn fy marn i, drwy gyhoeddi agendâu, yn enwedig, yn Gymraeg yn unig, mae'n debygol y gellid ystyried bod y Cyngor yn peidio â chynnwys rhai sy'n deall Saesneg, ond nid y Gymraeg, ac yn eu rhoi dan anfantais drwy ei gwneud yn llawer llai tebygol y bydden nhw'n dod i gyfarfodydd. Yn fy marn i, mae'n afresymol disgwyl i aelodau di-Gymraeg o'r cyhoedd fynd at y Clerc neu aelod o'r Cyngor bob tro mae agenda yn cael ei chyhoeddi er mwyn sefydlu beth yw'r eitemau ar yr agenda, y thrwy hynny beth fyddai'n cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

28. O ran cofnodion cyfarfodydd, fe ddylai'r rheiny hefyd, yn ddelfrydol, gael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Mae'r wybodaeth a ddarperir gan y Cyngor yn ymwneud â pha un ai a ydyn nhw'n cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog yn anghyson, mewn gwirionedd.

29. Mae fy swyddfa wedi rhoi nifer o gyfleoedd i'r Cyngor ddatrys y gŵyn drwy ofyn iddo gytuno i newid ei arferion a chyhoeddi deunydd perthnasol yn ddwyieithog, fel y gall siaradwyr di-Gymraeg ddeall yn well yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud. Rwy'n siomedig bod y Cyngor wedi bod yn amharod i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r ymchwiliad, ac nad oedd modd datrys y gŵyn hon yn gynharach. Rwyf hefyd yn siomedig bod y Cyngor wedi bod yn amharod i ddatrys y mater hwn drwy gyhoeddi'r holl agendâu yn ddwyieithog a rhoi sicrwydd na fyddai'r rhai sy'n deall Saesneg, ond nid Cymraeg, dan anfantais.

30. Ymddengys mai mater arwyddocaol yn yr achos hwn yw ei bod yn ymddangos fod y Clerc wedi digio yn sgil cwynion a wnaed gan Mrs X am y ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu. Mae'r darnau a nodir uchod yn awgrymu bod hyn yn wir, ond nid yw'n glir o ble mae'r drwgdeimlad yn deillio. Rwyf

wedi ystyried cynnwys a thôn cwynion ysgrifenedig Mrs X i'r Cyngor ac nid yw'n ymddangos i mi eu bod nhw wedi bod yn afresymol mewn unrhyw ffordd. Mewn unrhyw achos, dylai'r materion a godwyd gan Mrs X fod wedi cael ymateb proffesiynol a gwrthrychol.

31. O ran y llythyr o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, roedd yn amlwg yn ymwneud â'r iaith (lafar) a ddefnyddir yn ystod cyfarfodydd y Cyngor. Mae'n gwbl resymol i Gyngor gynnal ei waith yn Gymraeg. Byddai rhywun di-Gymraeg a fyddai'n dod i gyfarfod yn elwa ar y cyfieithiad y dywedodd y Clerc ei fod yn barod i'w gynnig (ac felly ni fyddai unrhyw anfantais sylweddol i rywun di-Gymraeg). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw cynnwys llythyr Comisiynydd y Gymraeg yn ymdrin mewn unrhyw ffordd â'r iaith a ddefnyddir mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau ysgrifenedig.

32. Rwy'n croesawu datganiad y Clerc y bydd yn darparu cymorth cyfieithu mewn cyfarfodydd i unrhyw un nad yw'n siarad Cymraeg. Mae hwn yn drefniant pwysig i atal allgáu pobl ddi-Gymraeg, ac oherwydd hynny rwyf felly'n annog y Cyngor i hysbysebu argaeledd y gwasanaeth hwn a sicrhau ei fod ar gael.

33. Er bod datblygu gwefan a fydd yn caniatáu i agendâu, cofnodion cyfarfodydd, ac ati gael eu cyfieithu'n awtomatig (os mai dyna'r hyn a gyflawnir yn y pen draw) yn ddatblygiad cadarnhaol, ni fyddai'n delio â'r mater o sicrhau bod yr agenda ar gael yn ddwyieithog i'r rhai nad oes ganddyn nhw fynediad rhwydd at y rhyngrwyd, neu sydd efallai'n dibynnu ar hysbysfwrdd y pentref i gael eu gwybodaeth am drafodaethau'r cyngor cymuned yn y dyfodol. Felly, hyd yn oed pan fydd y wefan yn weithredol, byddai angen rhoi copi caled o'r agenda ddwyieithog yn y lle arferol.

34. Er fy mod i'n sylwi nad yw Mrs X yn byw yn ardal y Cyngor nac yn cyfrannu trethi tuag ato, mae hi wedi dewis bod yn rhan o gymuned Cynwyd. Nid wyf o'r farn y gall y Cyngor ddweud yn rhesymol na ddylid gwneud unrhyw ddarpariaeth ddwyieithog ar ei chyfer ar sail hynny (nac i eraill mewn sefyllfa debyg iddi hi, o ran eu gallu ieithyddol).

35. Fel y nodais uchod, rwyf o'r farn ei bod yn afresymol i'r Cyngor beidio â chyhoeddi ei agendâu yn ddwyieithog. Un o brif ddibenion cyhoeddi agendâu yw rhoi gwybod i'r cyhoedd am yr hyn sy'n cael ei ystyried a'i drafod mewn

cyfarfodydd sydd i ddod, ac mae'n bwysig bod y cyhoedd yn deall eu cynnwys. Ni ddylai llunio agendâu dwyieithog fod yn faich i unrhyw gyngor cymuned.

36. Yn wyneb yr uchod, rwyf o'r farn fod y Cyngor wedi methu â gwneud darpariaeth ddwyieithog ysgrifenedig ddigonol ar gyfer Mrs X fel unigolyn sy'n deall Saesneg, ond nid Cymraeg. Mae hynny'n gamweinyddu, a achosodd i Mrs X ddioddef anghyfiawnder. Gan hynny, rwy'n dyfarnu fod cwyn Mrs X yn erbyn y Cyngor wedi ei **chadarnhau**.

37. Nid yw'r Cyngor yn derbyn fy nghanfyddiadau, ac mae wedi gwrthod derbyn yr argymhellion. Cefais fy siomi gan safiad y Cyngor drwy gydol yr ymchwiliad hwn, ond roeddwn yn poeni'n benodol am naws a chynnwys ei ymateb i'r drafft diweddaraf o'r adroddiad hwn, a oedd yn ddirmygus tuag at yr achwynydd a thuag at fy swyddfa i.

38. Gan fod y Cyngor wedi gwrthod derbyn fy argymhellion, rwy'n cyhoeddi'r adroddiad hwn fel adroddiad er budd y cyhoedd dan adran 16 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Mae fy argymhellion ynghylch y mater hwn yn hollol resymol. Mae'n peri pryder bod y Cyngor, sy'n cynrychioli pob un o drigolion yr ardal, wedi dewis safbwynt mor ddi-ildio drwy gydol yr ymchwiliad hwn, sydd wedi arwain at y Cyngor yn gorfod talu am roi cyhoeddusrwydd i'm hadroddiad. Bydd y mater hwn yn destun pryder i drigolion yr ardal. Byddaf yn rhannu'r adroddiad hwn gyda Llywodraeth Cymru a Swyddog Monitro Cyngor Sir Ddinbych.

## Argymhellion

39. Rwy'n **argymell**:

- (a) Bod y Cyngor yn ymddiheuro i Mrs X yn ysgrifenedig am fethu â gwneud darpariaeth ddwyieithog ysgrifenedig ddigonol ar ei chyfer.
- (b) Bod y Cyngor yn ymrwymo o hyn allan i gyhoeddi'r **holl** agendâu'n ddwyieithog ac i wneud dogfennau eraill ar gael yn ddwyieithog (gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd os nad ydyn nhw ar gael yn ddwyieithog yn barod) os yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny.


40. Yn unol ag adran 19 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, rhaid i'r Cyngor ystyried fy adroddiad a rhoi gwybod i mi cyn 14 Rhagfyr 2015 am y camau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu wedi eu cymryd, yn unol â'm hargymhellion.

41. Argymhellwyd mewn drafft cynharach o'r adroddiad hwn y dylai'r Cyngor wneud taliad o £100 i Mrs X i gydnabod yr amser a dreuliodd a'r drafferth a achoswyd iddi wrth fynd ar drywydd ei chŵyn. Dywedodd Mrs X, ar ôl gweld y drafft, ei bod hi'n amharod i dderbyn arian gan y byddai'r arian hwn yn amddifadu rhan o'r gymuned leol. Dywedodd hefyd nad ceisio iawndal oedd ei bwriad hi. Gan hynny, nid wyf yn gofyn i'r Cyngor wneud taliad o'r fath i Mrs X, er fy mod o'r farn y byddai'n ei haeddu.



Nick Bennett  
Ombwdsmon

10 Tachwedd 2015



Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru  
1 Ffordd yr Hen Gae  
Pencoed  
CF35 5LJ

Ffôn: 01656 641150  
Ffacs: 01656 641199  
E-bost: [holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk](mailto:holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk)  
Dilynwch ni ar Twitter: @Ombwdsmon